# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 2

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol*

### 11 Dyletswydd i benderfynu: ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach

(1) Pan fo'n cael ei dwyn i sylw corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan blentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol, rhaid iddo benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn is-adran (3) yn gymwys.

(2) Pan fo'n cael ei dwyn i sylw corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan berson ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr yn y sefydliad anghenion dysgu ychwanegol, rhaid iddo benderfynu a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, oni bai bod unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn is-adran (3) yn gymwys.

(3) Yr amgylchiadau yw—

(a) bod cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan y Rhan hon;

(b) bod y corff llywodraethu wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol a bod y corff llywodraethu wedi ei fodloni—

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(i) nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, a

(ii) nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw;

(c) bod y penderfyniad yn ymwneud â pherson ifanc ac nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud;

(d) bod y plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr ymrestredig mewn sefydliad arall (a bod y sefydliad hwnnw yn ysgol neu'n sefydliad yn y sector addysg bellach) a bod awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc;

(e) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun AIG ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

(4) Os yw'r corff llywodraethu yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol rhaid iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(5) Nid yw'r adran hon yn gymwys i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (gweler adran 17 (dyletswydd i atgyfeirio mater i awdurdod sy'n gofalu am blentyn)), oni bai bod y plentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.